# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Tachwedd 2015

Amser: 09.15 - 14.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3316

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jeff Cuthbert AC<br>Keith Davies AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Eluned Parrott AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Ian Bullock, Trenau Arriva Cymru<br>Christopher Garnett, Cwpan Rygbi'r Byd<br>Mark Hopwood, Great Western Railway<br>Josh Jones, Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru<br>Tom Legg, Cwpan Rygbi'r Byd<br>Paul McMahon, Network Rail |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Lynne Milligan, Trenau Arriva Cymru<br><br>Claire Moggridge, Cyngor Dinas Caerdydd<br><br>Cynthia Ogbonna, Bws caerdydd<br><br>John Pockett, Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru<br><br>Neil Snowball, Cwpan Rygbi'r Byd<br><br>Gareth Stevens, Bws Caerdydd<br><br>Mick Wright, Cwpan Rygbi'r Byd<br><br>Paul Carter, Cyngor Dinas Caerdydd |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br><br>Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br><br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc)<br><br>Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Thomas AC.

## 2 Cynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hanratty. Roedd Paul Carter, Rheolwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth a Gweithrediadau'r Ddinas yn bresennol yn ei le.

2.2 Atebodd Claire Moggridge, Paul Carter a Josh Jones gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

2.3 Cytunodd Claire Moggridge i ddarparu'r hyn a ganlyn:

- Manylion o ran nifer y tacsis sy'n gweithredu yng Nghaerdydd, ac unrhyw hyfforddiant a ddarperir er mwyn delio â digwyddiadau mawr.

- Sylwadau ynghylch a fyddai datganoli rheoleiddio tacsis a hurio preifat yn gallu mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth o drafnidiaeth yn ystod digwyddiadau mawr yng Nghaerdydd.
- Sylwadau ynghylch a oedd ymateb gyrwyr tacsis i'r ymosodiadau rhywiol difrifol yng Nghaerdydd ym mis Medi yn ddigonol, yn enwedig yr awgrymiadau bod gyrwyr wedi parhau i wrthod mynd â menywod ar deithiau byr.

## 3 Cynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd - Gwasanaethau Trenau

3.1 Atebodd Ian Bullock, Lynne Milligan, Mark Hopwood a Paul McMahon gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

3.2 Chwaraeodd Trenau Arriva Cymru fideo byr.

3.3 Chwaraeodd Great Western Railway ffeil sain fer.

## 4 Cynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd - Gwasanaethau Bysiau

4.1 Atebodd Cynthia Ogbonna, Gareth Stevens a John Pockett gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

## 5 Cynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd - Trefnwyr

5.1 Atebodd Mick Wright, Christopher Garnett, Tom Legg a Neil Snowball gwestiynau gan Aelodau o'r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd Neil Snowball i ddarparu copi o'r asesiad o effaith economaidd a gynhaliwyd cyn ac ar ôl Cwpan Rygbi'r Byd 2015.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

6.1.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 6.2 Llythyr i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

6.2.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

### 6.3 Gwybodaeth ychwanegol a ddarperir gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Hydref

6.3.1 Nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Comisiynydd Busnesau Bach

8.1 Nododd y Pwyllgor y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Comisiynydd Busnesau Bach a chytunwyd arno.

## 9 Ystyriaeth o Fil Cymru Drafft

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau'r Bil Cymru Drafft ar gylch gwaith y Pwyllgor.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am eglurhad ar rannau o'r Bil Cymru Drafft.